

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y cyfarfod:	26 Gorffennaf 2021
Aelod Arweiniol / Swyddog:	Y Cynghorydd Barry Mellor, Cadeirydd - Grŵp Tasg a Gorffen Asesu Llety Sipsiwn a Theithwyr
Awdur yr Adroddiad:	Angela Loftus (Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai) a Kim Waller (Prif Reolwr Prosiect)
Teitl	Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr – Adrodd yn ôl i Graffu gan y Grŵp Tasg a Gorffen

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal a chyflwyno asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru bob 5 mlynedd. Mae'n ofynnol i'r Cyngor nawr gynnal asesiad newydd gan fod ein hasesiad presennol wedi'i gyflwyno'n wreiddiol ym mis Chwefror 2016. Yn dilyn adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar 13 Mai 2021, sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen i gefnogi gwaith ar yr asesiad newydd. Mae'r Cylch Gorchwyl a gytunwyd ar gyfer y grŵp ynghlwm fel Atodiad 1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Grŵp Tasg a Gorffen.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu ar waith y Grŵp Tasg a Gorffen ac i alluogi Aelodau ystyried darganfyddiadau ac argymhellion y Grŵp. Ar y cam hwn, y ddau allbwn allweddol yw'r briff gwaith (ynghlwm fel Atodiad 2) a'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid (ynghlwm fel Atodiad 3) a ddatblygwyd i gefnogi darpariaeth yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) yn unol â methodoleg Llywodraeth Cymru. Nid yw'r gwaith wedi dechrau ar yr asesiad eto, ac mae'r adroddiad hwn yn gofyn am gadarnhad gan y Pwyllgor Craffu fod yr Aelodau'r fodlon bod y dull a gynigir yn gadarn ac yn unol â methodoleg Llywodraeth Cymru, ynghyd â chymeradwyaeth y Pwyllgor i ddechrau'r asesiad.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor Craffu yn ystyried a chymeradwyo:

a) Y Briff Gwaith Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (ynghlwm fel Atodiad 2)

b) Y Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid (ynghlwm fel Atodiad 3)

3.2. Bod y Pwyllgor Craffu yn cadarnhau cefnogaeth i'r dull a ddefnyddiwyd i ddarparu Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych fel un cadarn ac yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru, a chymeradwyo dechrau'r asesiad.

4. Manylion yr Adroddiad

Cefndir

4.1. Mae'r Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr (Adran 101) ac yna bodloni'r anghenion hynny (Adran 103). Mae yna ofyniad cyfreithiol (Deddf Tai (Cymru) 2014) i gynnal Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr o leiaf bob 5 mlynedd a nawr mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal Asesiad newydd. Mae Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr diweddaraf hefyd yn ofynnol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru yw 24 Chwefror 2022.

4.2. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi arweiniad statudol manwl, '*Cynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr*'. Mae hwn yn sail i gynnal y GTAA a bydd Llywodraeth Cymru yn asesu'r GTAA cyflawn yn erbyn y fethodoleg hon.

4.3. Mae dull rheoli prosiectau cadarn yn cael ei fabwysiadu gyda sefydlu Bwrdd Prosiect o dan arweiniad Aelod, gyda'r Arweinydd a Swyddog Arweiniol yn gweithio gydag Uwch Swyddogion i gyfeirio'r gwaith hwn gan sicrhau bod Aelodau yn cyfrannu, bod yn agored ac yn dryloyw drwy gydol y broses.

4.4. Mae Ymgynghorwyr wedi cael eu comisiynu ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i wneud yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd ar ran y ddau gyngor a chynigir y dylid cynnwys yr argymhellion gan y Grŵp Tasg a Gorffen yn y briff gwaith ar gyfer yr Ymgynghorwyr i sicrhau bod yr Asesiad newydd yn ymateb i unrhyw fylchau a ragwelir mewn gwybodaeth a phrosesau. Mae'r Briff Gwaith drafft yn cynnwys trafodaethau ac argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen ac mae ynghlwm fel Atodiad 2. Er bod y gwaith wedi'i gomisiynu ar y cyd, bydd asesiadau ac adroddiadau ar wahân

yn cael eu llunio ar gyfer pob awdurdod. Mae methodoleg Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr yn annog gweithio mewn partneriaeth gyda'r nod o gael gwell dealltwriaeth o angen a phatrymau teithio ar draws ffiniau gweinyddol; dull cyson; arbedion cost a maint; a llai o berygl o gyfrifo dwbl.

- 4.5. Er mwyn helpu i ymdrin â phryderon blaenorol a godwyd gan Aelodau etholedig a'r Pwyllgor Craffu am lefel yr ymgynghori â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr a'r angen i ymgysylltu'n gynnar â'r Pwyllgor Craffu, cynigiodd y Bwrdd Prosiect Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr y dylid sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i roi mewnbwn a chefnogaeth i lywio datblygiad yr Asesiad newydd. Cafodd y cynnig i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen, ynghyd â Chylch Gorchwyl ei gytuno arno gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn ei gyfarfod ar 13 Mai 2021.
- 4.6. Diben y Grŵp yw sicrhau bod y camau a gymerir i ddarparu'r GTAA newydd yn cydymffurfio â methodoleg Llywodraeth Cymru a bod adborth blaenorol yn cael ei gymryd i ystyriaeth o fewn y ddogfen newydd yn unol â gofynion Craffu. Yn ogystal, bydd y Grŵp yn monitro cynnydd ac yn cynghori fel bo'r angen ar ddarparu'r Asesiad. Rôl allweddol oedd helpu i ddatblygu cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid addas fydd yn bodloni pryderon a gofynion Craffu. Mae'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid drafft ynghlwm fel Atodiad 3. Rôl y Grŵp yw cefnogi darpariaeth yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd ac nid yw'n cynnwys unrhyw waith ar ddewis safleoedd nac ymateb i faterion gweithredol parhaus eraill am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr na gwerysilloedd diawdurdod.
- 4.7. Mae'r Grŵp yn cynnwys un Aelod etholedig a benodir gan bob un o Grwpiau Aelodau Ardal y Cyngor i sicrhau lledaeniad daearyddol. Mae'r Grŵp yn cael ei gadeirio gan y Cynghorydd Barry Mellor ac yn cael ei gefnogi gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a'r Parth Cyhoeddus, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad, cynrychiolwyr Gwasanaeth a'r Rheolwr Prosiect Corfforaethol. Mae'r Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Mark Young wedi mynychu cyfarfodydd fel arsylwr ar wahoddiad y Grŵp Tasg a Gorffen. Mae'r cwmni sy'n gweithio ar ran y Cyngor, Opinion Research Services (ORS) hefyd wedi mynychu cyfarfodydd y Grŵp i gyfarfod â'r aelodau, amlinellu'r fethodoleg ac ateb unrhyw gwestiynau a godwyd. Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi cyfarfod bedair gwaith ac mae'r trafodaethau wedi cynnwys methodoleg Llywodraeth Cymru, strwythur y prosiect, ffynonellau data, ymgysylltu a chyfathrebu a dadansoddi data.

4.8. Hyd yma mae gwaith y Grŵp wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r dull darparu a'r cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr, fodd bynnag, mae mwy o gyfarfodydd wedi'u cynllunio yn yr hydref i alluogi'r Grŵp fonitro cynnydd yr asesiad ac adolygu'r adroddiad drafft GTAA.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd cwblhau'r GTAA yn cyfrannu at y flaenoriaeth Gorfforaethol: Tai drwy nodi anghenion llety'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae Ymgynghorwyr wedi eu caffael ar y cyd gyda CBSC i gynnal y GTAA. Bydd ymrwymiad CSDd o £5.5mil yn dod o gyllideb y CDLI.

Bydd natur ddadleuol y gwaith hwn a'r cynnig ar gyfer cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mwy manwl yn rhoi mwy o alw ar y Tîm Cynllunio Strategol a Thai nag asesiadau anghenion eraill sy'n ofynnol gan y CDLI. Mae ymgynghori gyda theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr yn elfen hanfodol o'r broses GTAA. Bydd gwasanaethau Addysg a Gofal Cymdeithasol yn benodol yn cynnwys rôl allweddol yn lledaenu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad a nodi'r teuluoedd presennol sydd ag angen yn ystod cam ymgynghori'r prosiect.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Mae Asesiad o'r Effaith ar Les yn cael ei gynnal ar gyfer y prosiect. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar waith y Grŵp Tasg a Gorffen ac nid oes angen asesiad ar hyn o bryd.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd gan y Pwyllgor hwn wedi cyfarfod bedair gwaith hyd yma ac mae'r trafodaethau wedi llywio datblygiad y Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a'r Briff Gwaith.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Fel y nodir yn Adran 6 nid oes yna gostau uniongyrchol sy'n ymwneud â gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen a chroesawir bod costau cychwynol ymgynghorwyr wedi'i gymryd i ystyriaeth o fewn cyllidebau presennol. Bydd angen monitro'r sefyllfa'n ofalus dros y misoedd nesaf.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae yna nifer sylweddol o risgiau i'r prosiect a nodwyd a byddant yn bwydo i broses asesu risg yr achos busnes prosiect llawn. Mae mabwysiadu proses rheoli prosiectau ar gyfer darparu GTAA newydd yn un cam i leihau'r risg. Mae diffyg cefnogaeth wleidyddol wedi'i nodi fel risg sylweddol sydd wedi arwain at angen clir i'r Arweinydd a'r Aelod Arweiniol gyfrannu'n llawn at ddatblygu'r prosiect o'r dechrau. Bydd sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen yn sicrhau mwy o gyfraniad gan Aelodau yn y prosiect o'r dechrau.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 101 - Deddf Tai (Cymru) 2014

Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

Adran 7.4.1 ac Adran 7.4.2 (d) o Gyfansoddiad y Cyngor.